# PAPURAU BUSNES

## 19 Ionawr 2000

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 12 Ionawr 1999

**Andrew Davies ( Gorllewin Abertawe ) ;**

Cynnig bod y Cynulliad,

(a) yn dilyn ystyried y ddau adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau yn ymwneud â'r Gorchmynion drafft "Y Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn (Saesneg, Mathemateg, Addysg Gorfforol, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Ieithoedd Tramor Modern, Celf, Daearyddiaeth, Hanes, Technoleg, Cerdd) (Cymru) 2000", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Rhagfyr 1999; ac

(b) wedi ystyried y Gorchmynion drafft a'r dogfennau cysylltiedig – y rhaglenni astudio a'r targedau cyrhaeddiad (mae copïau ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan hafan/polisi a gwybodaeth/addysg/adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol)

(c) yn cymeradwyo gwneud y Gorchmynion yn unol â'r drafftiau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 1999. **( NDM161 )**

**Andrew Davies ( Gorllewin Abertawe ) ;**

Cynnig bod y Cynulliad;

(a) yn croesawu canlyniad yr adolygiad cyntaf o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a oedd yn benodol i Gymru

b) yn cytuno bod ACCAC wedi cyflawni amcanion gwreiddiol yr adolygiad (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ionawr 2000) yn llawn; bod y Cwricwlwm diwygiedig (ceir copi o'r rhaglenni astudio a'r targedau cyrhaeddiad ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan

hafan/polisi a gwybodaeth/addysg/adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol) yn adlewyrchu anghenion arbennig Cymru a phwysigrwydd sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg eang a chytbwys; bod y rhaglenni astudio newydd a’r targedau cyrhaeddiad yn fwy hylaw i’r athrawon; a bod y cwricwlwm gyda’r fframweithiau newydd ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg sy’n Gysylltiedig â Gwaith yn sicrhau y bydd pobl ifanc wedi’u paratoi yn well ar gyfer y cyfrifoldebau a’r heriau a fydd yn eu hwynebu fel oedolion. **(NDM162 )**

**Andrew Davies ( Gorllewin Abertawe ) ;**

Bod y Cynulliad, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 26 yn cymeradwyo’r adolygiad canlynol i’r Rheolau Sefydlog o 1 Chwefror 2000. **( NDM163 )**